



“Iacháu Calonnau, Trawsnewid Cenedloedd”

Medi 10-13, 2019

Coleg Trefeca, Trefeca, Aberhonddu, Powys, LD3 0PP

gyda **Dr Rhiannon Lloyd**

Healing the Nations www.healingthenations.co.uk

a'r Parch George De Vuyst, Iwcrain.

Fel canlyniad i'r ymateb hynod o gadarnhaol i'r gweithdy diwethaf, rydym yn falch o ddweud fod gweithdy arall wedi ei drefnu. Bwriad y gweithdy preswyl hwn yw arfogi arweinwyr Cristnogol i fod yn asiantau iacháu a chymod. Yn dilyn ei ddatblygu yn gyntaf yn Rwanda wedi'r hil-laddiad, gan Dr Rhiannon Lloyd, mae nawr yn cael ei redeg gan gredinwyr lleol mewn llawer rhan o'r byd. Mae'n ceisio dwyn iachâd a chyfanrwydd i gymunedau sy'n dioddef chwerwder a rhaniadau ethnig. Gwahoddir pobl o gefndiroedd ethnig ac eglwysig gwahanol i gyfarfod â Duw a'i gilydd ar lefel y galon. Mewn awyrgylch diogel, fe'i hanogir i brofi iachâd ac fe'i galluogir i ddatblygu persbectif ac agweddau newydd. Defnyddir cyfuniad o ddysgeidiaeth ryngweithiol, sesiynau grŵp, amseroedd gweinidogaeth a chydyfranogi gan y cyfranwyr. Mae pob sesiwn yn adeiladu ar sesiynau blaenorol, felly mae cyfranogiad llawn yn hanfodol.

Yn sgil mynychu'r gweithdy mae miloedd o fywydau wedi eu trawsffurfio, cymunedau wedi eu newid ac eglwysi wedi cymryd camau at fod yn asiantaethau iachâd a chymod.

Yma yng Nghymru, drwy drugaredd nid ydym wedi dioddef dim fel y dioddefodd Rwanda, ond rydym wedi profi rhaniadau ac anghyfiawnder ethnig ar hyd y canrifoedd, sydd wedi gadael eu hól. Mae calonnau angen eu hiacháu yma hefyd. Byddwn yn archwilio profiadau Cymru Cymraeg, Cymru di-Gymraeg, a mewnfwudwyr. Nod y gweithdy yw y bydd pawb yn gadael gan wybod eu bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, ac ag awydd i helpu i ddwyn iachâd i'n cenedl. Daw George de Vuyst ag agwedd o Iwcrain, sy'n uniaethu â Chymru. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithdy yn cael ei gynnal yn Saesneg, ond bydd rhai agweddau yn ddwyieithog.



Coleg Trefeca yw canolfan cynadledda ac encilfan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae Trefeca yn fan hanesyddol a chysegredig yng nghanol harddwch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Trefeca oedd cartref Howell Harris (1714-1773), arweinydd dylanwadol y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru a chyfoeswr Methodistaidd amlwg eraill megis Daniel Rowland, William Williams Pantycelyn, George Whitefield a John a Charles Wesley. Heddiw, mae llawer o bobl o amryw draddodiadau Cristnogol yn dod i Drefeca ar gyfer hyfforddiant, cynadleddau, adfywiad ysbrydol ac encilio.

Mae'r pwyslais yn Nhrefeca ar estyn lletygarwch a chroeso Cristnogol i lawer o bobl. Gyda'i leoliad prydferth, digyfnwid a'i awyrgylch teuluol heddychlon, mae Trefeca yn ddarn bach o nefoedd lle y gall pobl o draddodiadau gwahanol ymgasglu i dystiolaethu ac addoli gyda'i gilydd. Mae'r ymdeimlad o deulu yn gryf hyd heddiw ac mae'r traddodiad hir o addysg Gristnogol yn parhau.

Côst cynhwysol y gweithdy preswyl fydd £165.

Gan fod y llefydd yn brin, croesawn chi i anfon am ffurflen gais cyn gynted ag sydd bosibl, a chyn 3ydd o Fehefin ar yr hwyraf. Dydi cais am le ddim yn golygu derbyniad awtomatig gan ein bod yn anelu at gael nifer gweddol gytbwys o'r gwahanol garfannau yng Nghymru. Wedi gweddio am bob cais, byddwn yn ymateb erbyn diwedd Mehefin.

Am ragor o wybodaeth, a ffurflen gais, cysylltwch â rosie@healingthenations.co.uk neu drwy'r post i R. Leavers, Healing the Nations, 31 Llandudno Road, Rhos-on-Sea, Colwyn Bay, LL28 4UD

(Yn anffodus, dydi Rosie ddim yn siarad Cymraeg, felly mae'r gwaith gweinyddol i gyd yn Saesneg.)

Tystiolaethau o'r gweithdy Cymraeg diweddar:

'Roedd hwn yn brofiad sy'n newid fy mywyd!'

'Mae hwn wedi codi fy ngobeithion am beth all Duw ei wneud drwom ni. Yn aml rwy'n teimlo mor ddinerth.'

'Roedd y fframwaith Feiblaidd yn help mawr i mi.'

'Mae'n help i sylweddoli fod gan pawb boen a does na ddim enillwyr. Mae'n helpu i ddymchwel y muriau'

'Am y tro cyntaf teimlais yn gwbl rydd i ganu yn y ddwy iaith.'

'Fyddwn i ddim wedi colli hwn am ddim yn y byd!'